SUL CYFFREDIN 12

HOSEA 1:2-10; SALM 85;
COLOSIAID 2:6-15 [16-19]; LUC 11:1-13

● **Gweddi agoriadol**
Boed i fendith y Tad, yr Ysbryd, y Mab,
Drindod sanctaidd, dri yn un,
fod yn ein cyfarfod
a'n cyfarch,
yn yr addoli a rannwn
ac yng ngeiriau ein gweddi.

Boed i fendith y Tad, yr Ysbryd, y Mab,
Drindod sanctaidd, dri yn un,
fod yn ein byw
a'n hanadlu,
fel drwy ein calon a'n bywyd
y clywir gair Duw.

● **Moliant**
Nid ydym yn dilyn eilunod
nac athroniaethau bydol,
nac ychwaith yn rhoi ein gobaith
mewn credoau dynol.
Er ein bod yn fach
o'n mesur mewn termau cyffredin,
ac yn aml yn ddi-rym
wrth wynebu anhawster neu ofn,
nid yw ein gobaith wedi'i sefydlu
ar dywod glan y môr
ond ar sylfaen gadarn ffydd.

Plant y Duw byw ydym ni.
Ynddo ef yn unig yr ymddiriedwn.
Ynddo ef yn unig y gobeithiwn.
Iddo ef yn unig y rhown ein bywydau
i'w defnyddio er ei ogoniant.

● **Cyffes**
Dduw grasol,
yr un y mae dy gariad yn fwy
na drygioni'r byd,
maddau ein drwgweithredu.
Atgoffa ni o'th gariad di
a'n dihidrwydd ninnau;
atgoffa ni o'th heddwch di
a'n diffyg amynedd ninnau;
atgoffa ni o'th gyffyrddiad di
ac o'n breuder ninnau;
atgoffa ni o'th deyrnas di,
ac o'n digartrefedd ninnau.

Dduw grasol,
yr un y mae dy gariad yn fwy
na drygioni'r byd,
tyn ni i'th freichiau
a gosod ein traed eto ar dir cadarn.

● Diolch

Diolch, Arglwydd,
nad oes yn dy deyrnas
rai uwchben eu digon a rhai heb ddim,
dim rhai breintiedig a rhai tlodion,
dim cyfoethogion a rhai dan draed,
achos yn dy olwg di
mae pawb o'r un gwerth;
yn cael eu caru fel na all neb ond ti,
yn cael eu bendithio fel na all neb ond ti.

Diolch am gael ein cyfri yn blant i ti
a medru agor ein calon i'n Tad nefol
sy'n gwrando ar ein gweddi.
Diolch ein bod yn werthfawr yn dy olwg,
a boed i'n bywydau gael eu cyfri
yn deilwng o'r fath gariad a gras.

Drwy Iesu Grist y gofynnwn,
a fu farw i ni gael byw,
ac sy'n byw i ni brofi
llawnder dy gariad.